**Atodiad Dd**

## Grŵp Prosiect Strategaeth Prydau Bwyd

## Dadansoddiad o Anghenion Gofal Cartref Pryd ar Glud

**Pwrpas yr adroddiad** yw nodi amrywiaeth yr angen am ddarpariaeth prydau bwyd yn y grŵp o bobl sy'n derbyn gwasanaeth pryd ar glud ar hyn o bryd yn ardal ganolog Bwrdeistref Wrecsam. Bydd yr adroddiad yn nodi'r bobl hynny a allai, gyda chefnogaeth y Gwasanaethau Gofal Cartref, adennill a chynnal eu sgiliau paratoi pryd bwyd. Caiff dadansoddiad o bobl sydd â chyfleusterau i dderbyn pryd bwyd wedi'i rewi a'i baratoi yn annibynnol yn ogystal â'r ganran o bobl a allai drosglwyddo i wasanaeth prydau bwyd wedi'u rhewi ond a fyddai'n gorfod cael cefnogaeth i baratoi'r pryd(au). Mae'r prif ffynonellau cefnogi sydd eu hangen i ddiwallu'r angen hwn ar hyn o bryd wedi'i nodi.

### Grŵp sampl

Defnyddiwyd grŵp sampl o 19 o bobl o ardal Hightown a Bryn Offa i ystyried y materion. Mae'r grŵp yn cynnwys 18 o bobl rhwng 60 – 90 oed ac un unigolyn o dan 60 oed.

### Dull:

### Dadansoddiad o angen

Yn seiliedig ar y wybodaeth a goladwyd gan staff a rheolwyr Gofal Cartref, ystyriwyd angen pob unigolyn i gael deiet maethlon yng nghyd-destun y bobl sy'n derbyn pryd bwyd poeth wedi'i ddosbarthu gan y gwasanaeth gofal cartref ar hyn o bryd. Nid yw gofynion deietegol wedi'u cynnwys.

Nodwyd nifer y bobl a oedd â'r potensial i gael pryd bwyd wedi'i rewi a'i baratoi yn annibynnol, yn ogystal â nifer y bobl a allai adennill eu sgiliau i gynyddu eu hannibyniaeth wrth baratoi pryd bwyd.

Gan ddefnyddio gwybodaeth gyfredol staff a rheolwyr Gofal Cartref, nodwyd cefnogaeth ychwanegol ar gyfer prydau bwyd eraill e.e. brecwast ac amser te yn ogystal â'r dull cefnogi a

ddefnyddir i ddiwallu'r angen hwn e.e. Gofal Cartref, aelod o'r teulu neu rywbeth arall.

**Anghenion iechyd**

Cymerwyd anghenion iechyd corfforol pob unigolyn i ystyriaeth wrth ystyried a oedd pob unigolyn yn gallu adennill eu sgiliau i baratoi pryd bwyd, gan gynnwys ailgynhesu pryd bwyd wedi'i rewi. Bydd hyn yn cael effaith a dylanwad ar ddarpariaeth prydau bwyd presennol a darpariaethau'r dyfodol, a fydd yn gorfod diwallu'r angen cyffredinol.

| | |
|---|---|
| Dementia | 10 |
| Cyflwr angheuol | 1 |
| Anghenion iechyd corfforol | 6 |
| Anhysbys | 1 |
| Materion eraill | 1 |

**<u>Canlyniadau</u>**

O'r grŵp a oedd yn cynnwys pedwar ar bymtheg o bobl yn Hightown a Bryn Offa:

- Nodwyd bod gan un unigolyn y potensial i gynyddu ei sgiliau gyda chymorth.

- Roedd un unigolyn o'r grŵp sampl yn derbyn cymorth unwaith y dydd i gael pryd bwyd poeth a ddosberthir. Felly, gellid cymryd yn ganiataol y gallai pryd bwyd wedi'i rewi fod yn opsiwn.

- Mae pump o bobl yn cael cymorth aelodau o'u teuluoedd i wneud byrbryd amser te.

- Roedd deg o bobl yn cael Gofal Cartref i ddarparu gwasanaeth amser te.

- Roedd dau o bobl (pâr) yn cael galwad amser brecwast, pryd ar glud i'r wraig a gofalwr ychwanegol i wneud cawl i'r gŵr amser cinio, a chefnogaeth amser te. (3 ymweliad pryd bwyd – Gofal Cartref = 4 gofalwr)

- Mae un unigolyn yn cael cymorth i wneud brecwast, brechdan amser te, a pharatoir fflasg i ddarparu diod boeth ac mae'n

derbyn pryd ar glud. (2 ymweliad pryd bwyd - Gofal Cartref = 3 pryd bwyd)

O ganlyniad mae gan 2 o bobl y potensial i gael eu cefnogi i adennill neu i gynnal eu sgiliau i baratoi pryd bwyd ac mae 17 o 19 o bobl yn parhau i fod angen cymorth gwasanaethau gofal cartref neu aelod o'u teulu i baratoi pryd(au) bwyd.

**Gweithgareddau presennol**

Dosbarthu pryd bwyd 2 ofalwr x 1 awr y dydd = 2 awr x 7= 14 awr
Casglu/bancio arian = 1.30 awr yr wythnos x 2
= 3 awr
Rhestr o brydau bwyd a dderbyniwyd = 1.45 munud
Rhestr o gyflenwyr = 0.30 munud yr wythnos

Amser rheolwyr = Heb ei gynnwys

Cyfanswm = 20 awr 15 munud

**Gweithgareddau cefnogaeth i baratoi pryd bwyd**

Dosbarthu 17 x galwad 15 munud x 7 = 29.75 awr

**Pryd ar Glud Ardal Ganolog**

Defnyddiwyd y dull ar gyfer y grŵp cyfan o bobl a oedd yn derbyn pryd ar glud yn yr ardal ganolog ar y pryd, sy'n cynnwys ardaloedd Bryn Offa a Hightown. Casglwyd y wybodaeth gan staff Gofal Cartref a gofynnwyd iddynt nodi:

1. Pobl a ystyrir â photensial i gael eu hail-alluogi
2. Pobl sy'n cael cymorth gan eu teulu yn ogystal â gwasanaethau gofal cartref/dydd.
3. Pobl sy'n cael cymorth tra bo eu partner yn rhywle arall e.e. yn yr ysbyty.
4. Pobl sy'n cael gwasanaethau gofal dydd.
5. Y posibilrwydd o gadw microdon/rhewgell.

**Tabl mewnosod oedran a rhyw**

| **Oedran** | **Gwryw** | **Benyw** |
|---|---|---|
| **50-59** | **0** | **1** |
| **60-69** | **4** | **1** |
| **70-79** | **6** | **8** |
| **80-89** | **17** | **32** |
| **90-99** | **4** | **58** |
| **Oedran yn anhysbys** | **2** | **2** |
| **Cyfanswm** | **33** | **58** |

**Prydau bwyd a gyflenwir/Nifer y dyddiau i bob unigolyn**

| | |
|---|---|
| 7 diwrnod | 43 |
| 6 diwrnod | 6 |
| 5 diwrnod | 12 |
| 4 diwrnod | 11 |
| 3 diwrnod | 3 |
| 2 diwrnod | 10 |
| Anhysbys | 6? |